

## **GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD**

### **(GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD)**

#### **(ARDAL ARFON RHIF 28 – PARCIO TRIGOLION STRYD YR EGLWYS A STRYD Y FARCHNAD, CAERNARFON) 2025**

Mae Cyngor Gwynedd (y cyfeirir ato wedi hyn fel “y Cyngor”) trwy ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 63A a 124 o a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 (“Deddf 1984”), fel y newidiwyd ac y Ddeddf Rheolaeth Trafnidiaeth 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984 drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

### **RHAN I**

#### **ENWI A DEHONGLI**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y                      dydd o                      , 2025 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiadau, Cyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Ardal Arfon Rhif 28 – Parcio Trigolion Stryd yr Eglwys a Stryd y Farchnad, Caernarfon) 2025.
2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn golygu rhywbeth gwahanol mae i'r ymadroddion a ganlyn yr ystyron a roddir iddynt yma:  
  
mae gan “*Ambiwlans*” yr un ystyr a'r hyn sydd yn y Ddeddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994;  
  
golyga “*Asiant Awdurdodedig*” y contractwr gwasanaethau parcio a benodwyd gan neu a awdurdodwyd yn briodol i weithredu ar ran y Cyngor i ddibenion goruchwyllo a gorfodi'r Gorchymyn hwn;  
  
mae “*Man Parcio Awdurdodedig*” yn golygu unrhyw Fan Parcio ar y ffordd a awdurdodwyd neu a ddynodwyd gan y Gorchymyn hwn;

mae ystyr "*Bws*" yr un fath a'r hyn sydd yn Rheoliad 22 o Reoliadau 2002;

golyga "*Arosfa Bws*" unrhyw ran o'r gerbydlon a fwriadwyd i Fysiau aros, sydd wedi ei chynnwys ac wedi ei dangos gan farciau ar y ffordd sy'n cydymffurfio gyda diagram 1025.1 neu 1025.3 neu 1025.4 ac yn ymgorffori'r geiriau "*Arosfa Bws*" yn Atodlen 6 gydag arwydd yn cydymffurfio gyda diagram 970 yn Atodlen 5 i Reoliadau 2002;

mae "*Clirffordd Arosfan Bws*" yn golygu unrhyw ran o'r Gerbydlon a fwriadwyd ar gyfer bysiau sy'n aros, sydd wedi ei chynnwys ac a ddangosir gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda diagram 1025.1, .3 a .4 yn Atodlen 6 ag arwydd sy'n cydymffurfio gyda diagram 974 yn Atodlen 5 i Reoliadau 2002;

mae "*Cerbydlon*" yn golygu ffordd sy'n briffordd neu wedi ei chynnwys yn rhan ohoni (heblaw am drac beic) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerbydau deithio;

mae ystyr "*Swyddog Gorfodi Sifil*" wedi ei ddiffinio yn Adran 76(1) o Ddeddf 2004

mae i "*Cerbyd Person Anabl*" yr un ystyron ac sydd yn y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

mae "*Bathodyn Person Anabl*" a "*Disg Parcio*" yn golygu'r bathodyn a'r disg a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 neu yn fathodyn sy'n gweithredu o dan y rheoliadau yma fel pe byddai'n Fathodyn Person Anabl;

golyga "*Gyrrwr*", mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn lle parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, y person oedd yn gyrru'r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y Man Parcio hwnnw neu'r ffordd neu ran o'r ffordd;

mae "*Deddfiad*" yn golygu unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus cyffredinol neu yn lleol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu unrhyw offeryn arall sydd mewn grym drwy rinwedd Deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y

Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, defnyddiwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd neu sydd mewn grym drwy rinwedd unrhyw Ddeddfiad dilynol;

mae "*Nwyddau*" yn golygu nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath;

mae "*Cerbyd Nwyddau*" yn golygu cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo Nwyddau ac nad yw yn ddim mwy na 5.30 metr o hyd neu 2.25 metr o uchder;

mae "*Cerbyd Hacni*" yn golygu cerbyd a drwyddedwyd o dan Adran 38 o'r Ddeddf Cerbydau (Ecséis), 1971;

mae "*Aelwyd*" yn golygu preswylwyr annedd a ddefnyddiwyd neu sydd yn addas i'w ddefnyddio fel annedd ar wahân;

mae gan "*Dyfais Rhwystro Symud*" yr un ystyron ag yn Adran 104(9) o Ddeddf 1984

mae "*Llwytho*" yn cynnwys Llwytho neu Ddadlwytho Nwyddau i neu o gerbyd;

mae gan "*Feic Modur*" a "*Cerbyd yr Anabl*" yr un ystyron ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

mae gan "*Cerbyd Modur*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

golyga "*Perchennog*", mewn perthynas â'r cerbyd yr unigolyn sy'n cadw'r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd Perchennog y cerbyd ar unrhyw adeg fe ragdybir mai'r Perchennog yw'r unigolyn y cafodd y cerbyd ei gofrestru yn ei enw ar y pryd o dan y Ddeddf Ecséis Cerbydau a Chofrestru 1994;

mae "*Man Parcio*" yn golygu unrhyw Fan Parcio a ddangosir ar Gerbydlon gan farciau yn unol â Rheoliadau 2002, ar ffordd a ddynodwyd gan orchymyn a wnaed neu sydd yn weithredol fel pe tai wedi ei wneud o dan Ddeddf 1984;

mae "*Tâl Cosb*" a "*Tâl Cosb Ostyngol*" yn golygu tâl sydd wedi ei osod gan y Cyngor o dan

ddarpariaeth adran 78 o Ddeddf 2004 a Chanllawiau 2008 sydd i'w talu i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y rhybudd, neu 14 diwrnod mewn achosion o Dâl Cosb Ostyngol yn dilyn cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb;

golyga "*Rhybudd Tâl Cosb*" neu "*RhTC*" rybudd a rhoddwyd neu a gyflwynwyd gan Swyddog Gorfodaeth Sifil yn unol â darpariaethau adran 78 o'r Ddeddf 2004;

mae "*Cerdyn Parcio*" yn golygu cerdyn parcio a gyflwynwyd o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn;

mae "Deilydd y cerdyn parcio" yn golygu'r person y cyflwynwyd y cerdyn parcio dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn;

mae "*Oriau a Ganiateir*" yn golygu'r oriau a nodwyd yn yr Atodlenni sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae "*Cynlluniau*" yn golygu'r cynlluniau yn yr Atodlen sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae "*Safle Perthnasol*" o safbwynt: -

(a) Bathodyn Person Anabl, yn golygu

- (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn glir o du allan i'r cerbyd; neu
- (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn glir o du allan i'r cerbyd;

(b) mae Disg Parcio Person Anabl, yn golygu bod yr ochr sy'n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd yr amser aros i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd;

(c) mae Cerdyn Parcio Preswylwr a Thystysgrif Hepgor, yn golygu

- (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos arno fel bod rhan o'r Cerdyn i'w weld yn glir o du allan i'r

cerbyd; neu

- (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod y Cerdyn i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd;

mae "*Preswylwr*" yn golygu unigolyn sydd a'i le byw arferol yn eiddo sydd a'i gyfeiriad post ar ffordd neu ran o'r ffordd a adnabuwyd fel parth parcio i breswylwyr ar y cynlluniau sy'n atodol i'r gorchymyn hwn;

mae "*Safle Penodol*" yn golygu cerbyd a adawyd mewn Man Parcio yn ystod yr Oriau a Ganiateir yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn sy'n achosi iddo sefyll:-

- (a) yn achos y Man Parcio mewn perthynas â lle bo darpariaethau arbennig ynglŷn â'r modd mae cerbyd yn sefyll yn y lle hwnnw wedi eu pennu yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn fe fyddant yn unol â'r darpariaethau hynny;

- (b) yn achos unrhyw Fan Parcio arall -

- (i) os nad yw'r Man Parcio ar stryd unffordd, fod yr ochr chwith neu ochr agosaf y cerbyd ger ochr chwith y Gerbydlon;

- (ii) bod y pellter rhwng ochr y Gerbydlon ag olwyn agosaf y cerbyd ddim mwy na 300 milimetr;

- (c) fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn cyfyngiadau'r Man Parcio;

- (d) nad oes unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw fodd cerbydol o fynediad i mewn neu allan o unrhyw eiddo ger ochr y ffordd lle mae'r cerbyd yn aros.

golyga "*Oriau Penodol*" yr oriau a nodwyd ar gyfer manau parcio neu ddadlwytho y cyfeiriwyd atynt yn y Gorchymyn hwn;

mae "*Rheng Dacsi*" yn golygu ardal o'r Gerbydlon sydd wedi ei chynnwys o fewn ac wedi ei dangos gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda diagram 1028.2 yn Atodlen 6 o

Reoliadau 2002;

mae gan "*System Telathrebu*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Neddf Telathrebu 1984;

mae "*Rheoliadau 2002*" yn golygu Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002;

mae "*Canllawiau 2008*" yn golygu'r Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008;

mae "*Deddf 1984*" yn golygu Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984;

mae "*Deddf 2004*" yn golygu Deddf Rheoli Traffig 2004

mae "*Arwydd Traffig*" yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a bennwyd neu a awdurdodwyd yn unol â neu fel pe byddai wedi ei bennu neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 o Ddeddf 1984.

mae "*Tystysgrif Hepgor*" yn golygu tystysgrif a gyflwynwyd yn briodol ar ran y Cyngor i ddibenion Erthygl 22 sy'n caniatáu i gerbyd penodol aros mewn amgylchiadau penodol ar ddarn neu ddarnau o ffordd lle y byddai aros i'r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei gyfyngu;

3. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sydd a'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i ffordd neu ochr ffordd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn gyfeiriad at y holl rai a nodwyd felly.
4. Bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol a ddim yn amharu ar unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau neu Orchmynion a wnaed neu fel pe byddent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw Ddeddfiad arall.
5. Oddieithr lle fo'r gwrthwyneb yn cael ei nodi, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i:

- (a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael eu dehongli fel cyfeiriad i'r Gorchymyn hwn neu, fel bo'n berthnasol, orchymyn arall, gan y gall fod hwn wedi neu y bydd o bryd i'w gilydd yn cael ei newid, amrywio neu ychwanegu ato;
  - (b) Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o'r fath gan y gall eu bod wedi neu y byddant o bryd i'w gilydd yn cael eu newid neu eu hail-ddeddfu.
6. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol ac fel pe byddai ar gyfer dibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno fod y Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol.
- Awdurdodir defnyddio'r rhannau o'r ffyrdd a nodwyd.

## **RHAN II**

### **GWAHARDD AROS**

7. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 8, 9 a 10 o'r Gorchymyn hwn ni fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddwes yn ei wisg, Swyddog Cymorth Cymunedol neu Swyddog Gorfodi Sifil, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y darnau ffordd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.
8. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y darnau ffordd a nodwyd yn Erthygl 1 oni bai ei bod hi'n angenrheidiol:
- 8.1 i unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod ohono:
  - 8.2 fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-
    - (i) unrhyw briodas neu angladd;

- (ii) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
  - (iii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;
  - (iv) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a
  - (v) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel y diffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;
- 8.3 fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgymwrwr dŵr, ymgymwrwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
- 8.4 fel y gellir defnyddio cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel y diffinnir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddsbarthu a/neu gasglu'r post;
- 8.5 i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y Frigâd Dân, Ambiwlans neu'r Heddlu;
- 8.6 mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
- (i) angen yn ôl y gyfraith i stopio;
  - (ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
  - (iii) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
- 8.7 i ddibenion llwytho neu ddadlwytho'r cerbyd tra mewn perthynas â dosbarthu neu symud dodrefn i neu o unrhyw adeilad sydd yn wynebu'r rhannau dywededig o'r ffordd honno AR YR AMOD bod rhybudd yn cael ei roi 24 awr ymlaen llaw i'r



heddlu gan dderbyn eu caniatâd;

9. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ddarnau o'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i drosglwyddo neu gasglu o neu lwytho neu ddadlwytho nwyddau yn unrhyw adeilad sy'n wynebu'r darn ffordd a nodir AR YR AMOD nad yw'r cerbyd yn aros am gyfnod hwy na 30 munud y tu allan i'r un un adeilad heb ganiatâd heddwys yn ei wisg, Swyddog Cymorth Cymunedol neu Swyddog Gorfodi Sifil a bod heddwys yn ei wisg, Swyddog Cymorth Cymunedol neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu gofyn ar unrhyw amser i yrrwr y cerbyd i'w symud os yw'n rhesymol angenrheidiol i'r pwrpas o osgoi rhwystr.
10. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd aros am gyfnod heb fod yn fwy na 3 awr (nad yw'n gyfnod wedi'i wahanu gan egwyl neu lai nag awr oddi wrth gyfnod blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un ffordd neu ran o'r un ffordd ar yr un diwrnod) yn y darnau ffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn os yw'r cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio a gyflwynwyd gan unrhyw lywodraeth leol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000.

### **RHAN III**

#### **CYFYNGIADAU AROS AC AWDURDODI A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO AR Y**

#### **STRYD**

11. Mae pob rhannau o'r ffyrdd a nodwyd yn Atodlen 2 ac Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn naill ai (a) i'w ddefnyddio fel man a nodwyd fel man parcio deilydd cerdyn parcio i'w ddefnyddio gan deilydd cerdyn parcio fel y nodwyd yn Atodlen 2 neu (b) awdurdodir i'w ddefnyddio fel man parcio yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ar y dyddiau

- hynny i'r dosbarthiadau hynny o gerbydau mewn safleoedd o'r fath a nodwyd yn Atodlen 3 yn amodol nad yw'r cerbyd yn aros ar unrhyw ddarn o'r man parcio sydd yn ffordd mynediad.
12. Ni fydd dim yn Erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu heddwes yn ei wisg, i atal rhwystr ar y strydoedd, drwy orchymyn ar adeg pan fo unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoledd neu oleuadau, neu le fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau unrhyw Fan Parcio.
  13. Ni fydd dim yn Erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu unigolyn a ddynodwyd gan y Cyngor i atal defnyddio Mannau Parcio a Ganiateir ar ddarn o ffordd neu unrhyw ran ohoni pan fo ef/hi yn ystyried fod ataliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol.
  14. Lle yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn mae Man Parcio deilydd y cerdyn parcio yn cael ei ddisgrifio fel bod ar gael i gerbydau o ddsbarth penodol neu mewn lleoliad a nodwyd ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y Man Parcio hwnnw yn ystod y dyddiau penodedig-
    - (a) oni bai ei fod o ddsbarth penodol dywededig; neu
    - (b) mewn lleoliad arall i'r hyn a nodwyd yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.
  15. Ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn achosi nac yn caniatáu iddo aros ar ochrau'r ffyrdd a nodwyd yn Atodlen 3 o ddydd Llun hyd at ac yn cynnwys dydd Sadwrn am gyfnod hwy na 45 munud.
  16. Pan fo cerbyd wedi gadael y darn ffordd a nodwyd yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar ôl aros yno am gyfnod o 45 munud neu lai ni fydd gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo fewn un awr ar ôl iddo adael i aros unwaith eto yn y darn ffordd yno.
  17. Ni fydd Gyrrwr cerbyd yn defnyddio Man Parcio -
    - (a) fel ag yn afresymol i atal mynediad i unrhyw eiddo sydd ger y ffordd, neu ddefnydd y ffordd gan unrhyw berson arall, neu fel ag i fod yn niwsans;

- (b) wrth atal rhwystro'r strydoedd bydd y Cyngor drwy Orchymyn a wnaed ar achlysur unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoledd neu oleuadau, neu le fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro yn cau'r Man Parcio gan arddangos hysbysiad o'r cau ar neu ger y Man Parcio.
18. Bydd Gyrrwr Cerbyd Modur sy'n defnyddio Man Parcio yn diffodd y peiriant cyn gynted ag y bo'r cerbyd yn ei le yn y man parcio, a ni fydd yn tanio'r peiriant ac eithrio i symud y cerbyd neu i adael y Man Parcio.
19. Ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd, tra bydd mewn Man Parcio, mewn cysylltiad â gwerthu neu hurio ei arbenigedd neu wasanaethau.
20. Ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd tra bydd mewn Man Parcio mewn cysylltiad â chynnal a chadw a thrwsio'r cerbyd ac eithrio os yw'r cerbyd wedi torri i lawr i alluogi'r cerbyd i gael ei symud o'r Man Parcio.
21. Ni fydd dim yn Erthygl 11, 14 neu 15 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, ddarn o'r ffordd neu ar ochrau'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i alluogi:
- (a) unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod oddi arno;
- (b) fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-
- (i) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
- (ii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;
- (iii) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a
- (iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu

drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel y diffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;

- (c) fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgymerwr dŵr, ymgymerwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
  - (ch) cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel y diffinnir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddsbarthu a/neu gasglu'r post;
  - (d) fel y gellir rhoi petrol, olew dŵr neu aer yn y cerbyd o unrhyw garej a leolir ar neu ger y darnau ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd uchod;
  - (dd) i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y frigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;
  - (e) mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
    - (i) angen iddo stopio gan y gyfraith;
    - (ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
    - (iii) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
  - (f) os yw'r cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Hepgor ddilys ac yn aros yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir gan y Dystysgrif ddywededig.
22. Bydd cerbyd a ddefnyddir i gludo person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio a adewir ar ochr y ffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 3 yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn eithriedig rhag unrhyw gyfyngiad ar amser.
23. Pan fo cerbyd yn cael ei adael mewn Man Parcio yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau sydd yn Erthyglau 11, 14, neu 15 o'r Gorchymyn hwn bydd person a awdurdodir ar ran y

Cyngor yn gallu symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio.

**AR YR AMOD** pan fo cerbyd yn aros mewn Man Parcio yn groes i ddarpariaeth Erthygl 14(b) o'r Gorchymyn hwn, hynny yw dim parcio y tu allan i'r rhan o'r ffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2, gall person a awdurdoddir ar ran y Cyngor newid neu achosi i newid safle'r cerbyd er mwyn i'w leoliad gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth honno.

24. Bydd unrhyw berson sy'n symud cerbyd neu yn newid ei leoliad drwy rinwedd yr Erthygl 23 o'r Gorchymyn hwn wneud hynny drwy lusgo neu yrru'r cerbyd neu mewn modd arall yr ystyria sydd ei angen a gall gymryd mesurau o'r fath mewn perthynas â'r cerbyd ag y creda sy'n angenrheidiol i'w alluogi i'w symud neu newid ei leoliad fel bo'r achos.
25. Pan fo unigolyn a awdurdodwyd gan y Cyngor yn symud neu yn gwneud trefniadau i symud cerbyd ymaith o Fan Parcio drwy rinwedd Erthygl 23 o'r Gorchymyn hwn, bydd ef/hi yn gwneud y trefniadau sydd yn rhesymol angenrheidiol i ddal y cerbyd yn ddiogel.
26. Serch darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, gall y Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn gyflwyno Tystysgrif Hepgor i ganiatáu i gerbyd penodol aros ar ffordd neu mewn Man Parcio yn ystod oriau gweithredu unrhyw gyfyngiadau neu waharddiad i'r gwrthwyneb.
27. Gellir canslo Tystysgrif Hepgor ar unrhyw adeg ar ddisgresiwn y Cyngor yn unig a bydd wedyn yn peidio â bod yn ddilys ar unwaith.
28. Bydd hysbysiad o ganslo o'r fath yn cael ei anfon drwy'r post i ddeilydd y dystysgrif i unrhyw gyfeiriad, y cred y Cyngor yw cyfeiriad yr unigolyn hwnnw, a bydd y dystysgrif yn cael ei hildio ar unwaith i'r Cyngor.

### **CARDIAU PARCIO**

29. (1) Gall unrhyw breswylwr, sy'n byw o fewn y darnau o ffyrdd y cyfeiriwyd atynt yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac sy'n berchennog cerbyd o'r dosbarth a nodir yn Atodlen 2

- (a) wneud cais i'r Cyngor neu asiant awdurdodedig am gerdyn parcio i barcio'r cerbyd hwnnw mewn man parcio a bennwyd yn Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn a bydd unrhyw gais o'r fath yn cael ei wneud ar ffurflen a gyflwynwyd gan ac a ellir ei chael gan y Cyngor neu asiant awdurdodedig a bydd yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth sydd ei hangen ar ffurflen o'r fath i'w cyflwyno gyda'r ffi a bennwyd yn Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn.
- (b) wneud cais i'r Cyngor am gerdyn parcio ymwelwyr i barcio cerbyd modur yn y manau parcio a bennwyd yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn a bydd cais o'r fath yn cael ei wneud ar ffurflen sydd ar gael o swyddfa benodedig y Cyngor a bydd yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth sydd eu hangen gan ffurflen o'r fath a ddarparwyd ynghyd â'r ffi a bennwyd yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn ar gyfer y math o gerdyn parcio ymwelwyr sydd ei angen.
- (2) Gall y Cyngor neu asiant awdurdodedig ar unrhyw amser ofyn i ymgeisydd am gerdyn parcio neu ddeilydd cerdyn i ddangos i swyddog o'r Cyngor neu asiant awdurdodedig dystiolaeth o'r fath o safbwynt cais am gerdyn parcio fel y gallant yn rhesymol fod angen gwirio manylion neu'r wybodaeth a roddwyd iddynt neu wirio fod y cerdyn yn ddilys.
- (3) Bydd y Cyngor neu asiant awdurdodedig arall yn fodlon fod yr ymgeisydd yn breswlydd sydd yn berchennog cerbyd o'r dosbarth a bennwyd yn Atodlen 2 yn cyflwyno i'r ymgeisydd cerdyn parcio preswylwyr ymwelwyr preswylwyr fel bo'n briodol i adael yn ystod yr oriau a ganiateir mewn lle parcio'r cerbyd mae'r cerdyn parcio yn berthnasol iddo, gan y perchennog neu unrhyw berson sy'n defnyddio cerbyd o'r fath gyda chaniatâd y perchennog (ac eithrio unigolyn y mae cerbyd o'r fath wedi ei osod i'w logi ac i gael gwobr).

30. Bob amser pan fo cerbyd modur yn aros (ac eithrio cerbyd modur sydd fel arall wedi ei eithrio gan y Gorchymyn hwn) mewn lle parcio i'r dosbarth o gerbyd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, bydd cerdyn parcio yn cael ei arddangos yn y lleoliad perthnasol.
31. Bydd cerdyn parcio ond yn ddilys i'r cerbyd ar gyfer yr hwn y cyflwynwyd ar ei gyfer ac ni fydd deilydd unrhyw gerdyn parcio yn achosi neu yn caniatáu unrhyw gerdyn parcio a gyflwynir iddo gan y Cyngor i gael ei arddangos ar unrhyw gerbyd sydd â rhif cofrestru gwahanol i'r hyn a nodwyd ar y cerdyn parcio.
32. Bydd cerdyn parcio yn peidio bod yn ddilys os fydd un o'r digwyddiadau a nodir isod yn digwydd:
- (a) deilydd y cerdyn parcio yn peidio bod yn breswlydd, yn achos Cerdyn Parcio.
  - (b) bod deilydd y cerdyn parcio yn peidio bod yn berchennog y cerbyd modur y cyflwynwyd y cerdyn parcio ar ei gyfer;
  - (c) canslo cerdyn parcio o'r fath gan y Cyngor o dan ddarpariaethau Erthyglau 34 a 35 i'r Gorchymyn hwn;
  - (ch) cyflwyno cardiau cerbyd dyblyg gan y Cyngor o dan ddarpariaethau Erthyglau 37
  - (d) bod cyfnod cyflwyno'r cerdyn parcio yn dod i ben;
  - (dd) y cerbyd modur y rhoddwyd cerdyn parcio o'r fath iddo wedi ei addasu neu ei ddefnyddio yn y fath fodd nad yw'n gerbyd modur o'r dosbarth a bennwyd yn y Gorchymyn yma;
  - (e) pan fo unrhyw gerdyn parcio yn cael ei gyflwyno i unrhyw unigolyn ar ôl derbyn siec neu gerdyn credyd a bod y taliad wedyn ddim yn cael ei dalu, bydd y cerdyn parcio yn peidio bod yn weithredol o'r dyddiad cyflwyno a bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i unigolyn y cyflwynwyd y cerdyn parcio drwy wasanaeth dosbarthiad a gofnodwyd neu drwy ddanfôn y person i'r cyfeiriad diwethaf

gwybyddus yn gofyn i'r unigolyn ildio'r cerdyn parcio i'r Cyngor cyn pen 48 awr ar ôl derbyn yr hysbysiad hwnnw.

33. Bydd y cerdyn parcio yn ysgrifenedig gan gynnwys y manylion a ganlyn:-
- (a) adnod cofrestru'r cerbyd y cyflwynwyd y cerdyn parcio ar ei gyfer;
  - (b) y cyfnod pan fydd y cerdyn parcio yn parhau yn ddilys;
  - (c) dilysiad fod y cerdyn parcio wedi ei gyflwyno gan y Cyngor;
  - (ch) y parth ble fo'r cerdyn parcio yn ddilys.
34. Gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, ganslo cerdyn parcio a hysbysu deilydd y cerdyn yn y cyfeiriad a ddangosir gan yr unigolyn hwnnw ar y cais am y cerdyn parcio neu yn unrhyw gyfeiriad arall a gredir sydd yn fangre byw i'r unigolyn hwnnw a bydd deilydd y cerdyn parcio yn ildio'r cerdyn i'r Cyngor cyn pen 2 ddiwrnod gwaith o dderbyn yr Hysbysiad a soniwyd amdano yn flaenorol.
35. Bydd Cerdyn Parcio Preswylwyr sydd:-
- (a) wedi ei golli, ei ddifetha, wedi gwisgo neu wedi ei ddwyn yn cael ei newid gan y Cyngor ar ôl derbyn y ffi benodedig a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.
  - (b) yn peidio bod yn ddilys yn unol ag Erthygl 32(b) i'r Gorchymyn hwn yn cael ei newid gan y Cyngor a bydd newid o'r fath yn cael ei gyflwyno o safbwynt cerbyd modur gwahanol sy'n eiddo i ddeilydd y cerdyn parcio, wedi derbyn y ffi benodol a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Bydd y cerdyn parcio y cyflwynir cerdyn parcio arall yn ei le o dan ddarpariaethau'r cymal yma yn cael ei ganslo a bydd gan y cerdyn parcio newydd yr un dyddiad dod i ben â'r cerdyn parcio cyntaf sydd wedi ei ganslo. Oni bai fod y cerdyn parcio wedi cael ei golli neu ei ddwyn dylai gael ei ildio i'r Cyngor cyn y cyflwynir cerdyn parcio newydd.

36. Ni fydd Cerdyn Ymwelwyr sydd heb eu defnyddio, ar goll, wedi ei ddifetha, wedi gwisgo



neu ei ddwyn ddim yn cael ei newid ac ni fydd yn ddilys i gael arian yn ôl o unrhyw arian a dalwyd o safbwynt prynu'r cerdyn Parcio hwnnw.

37. Bydd holl ddarpariaethau'r Gorchymyn yma yn gymwys i gerdyn parcio dyblyg i'r un graddau ag a ddefnyddiwyd yn y cerdyn parcio gwreiddiol.
38. Pan fo cerdyn parcio wedi ei arddangos yn unol â darpariaethau Erthygl 30 ni fydd unrhyw unigolyn ac eithrio heddwas neu swyddog cefnogi cymunedol neu swyddog gorfodaeth sifil yn ei wisg yn tynnu cerdyn parcio o'r fath neu hysbysiad o'r cerbyd oni bai y cafodd ei awdurdodi i wneud hynny gan yrrwr y cerbyd hwnnw.

### **MYND YN GROES I'R GORCHYMYN**

39. (1) Os caiff cerbyd ei adael mewn Man Parcio yn ystod Oriau a Ganiateir neu ar unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy a/neu gellir symud y cerbyd o'r lleoliad hwnnw.
- (2) Yn achos cerbyd lle mae Tâl Cosb yn daladwy, bydd Rhybudd Tâl Cosb yn cael ei gyflwyno gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn unol ag adran 78 o'r Ddeddf 2004.
- (3) Yn achos cerbyd sydd wedi cael Tâl Cosb, dyletswydd y Swyddog Gorfodi Sifil fydd gosod Rhybudd mewn lle amlwg ar y cerbyd, a bydd yn rhybudd sy'n cynnwys y manylion a ganlyn:
  - (a) y rhesymau pam fod y Swyddog Gorfodi Sifil yn credu bod y Tâl Cosb yn daladwy mewn perthynas â'r cerbyd;
  - (b) swm y Tâl Cosb sydd yn daladwy;
  - (c) bod rhaid talu'r Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd;

- (ch) os bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu cyn pen diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd, bydd swm y Tâl Cosb yn gostwng yn ôl yr hyn a nodir
- (d) os na thelir y Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod, bydd yn bosibl cyflwyno Rhybudd i'r Perchennog gan yr Awdurdod Lleol i'r person yr ymddengys sydd berchen y cerbyd; a'r
- (dd) cyfeiriad lle dylid talu neu anfon tâl y Tâl Cosb.
- (4) Nodir ar y Rhybudd Tâl Cosb y bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu ddim hwyrach na 4.30 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb ond os bydd y pedwerydd diwrnod ar ddeg yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd yr adran dan sylw ar gau, bydd y cyfnod talu'r Tâl Cosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn hyd 4.30 p.m. y diwrnod llawn nesaf pan fydd yr adran dan sylw ar agor.
- (5) Os na thelir y Tâl Cosb o fewn 28 diwrnod o'r Rhybudd i'r Perchennog bydd yn bosibl codi'r tâl 50% drwy gyflwyno Tystysgrif Tâl.
- (6) Gall parhau i beidio â thalu arwain at ddyfarniad yn y llys Sirol yn erbyn y Perchennog, i alluogi'r Cyngor i adennill y taliadau dyledus.
- (7) Ni fydd gan unrhyw un heblaw gydag awdurdod y Perchennog neu'r unigolyn sydd yn gyfrifol am y cerbyd, neu'r Cyngor, neu o dan eu hawdurdod, hawl i dynnu'r Rhybudd Tâl Cosb sydd wedi'i osod ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Erthygl hon.
- (8) Os bydd cerbyd yn cael ei adael ar ôl cael Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil yn ei wisg neu unigolyn sydd yn gweithio yn ôl ei gyfarwyddyd osod dyfais rhwystro symud a rhybudd yn unol â gofynion adran 79 o'r Ddeddf 2004 a dylid ond rhyddhau'r cerbyd o'r ddyfais ar ôl derbyn y Tâl Cosb, neu yn ôl fel y digwydd, tâl cosb ostyngol, ynghyd â ffi rhyddhau o'r fath ag y gall fod y Cyngor ei angen.

(9) Pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil wedi symud cerbyd neu beri iddo gael ei symud yn unol â pharagraff (1) yr Erthygl hon:

(a) bydd ef/hi yn gofalu bod y cerbyd yn cael ei gadw yn ddiogel;

(b) bydd gan y Cyngor hawl i adennill unrhyw gostau gan y person sydd yn gyfrifol am y fath gostau o ran symud, cadw neu gael gwared â'r cerbyd fel y pennir ganddo o bryd i'w gilydd;

(c) bydd darpariaethau Deddf 1984 yn berthnasol i gael gwared â cherbyd o'r fath a symudir gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl hon.

#### **RHAN IV**

#### **DILYSRWYDD**

40. Os bydd llys, yr Adran Drafnidiaeth, y Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol neu'r Ganolfan Gorfodaeth Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn hwn.

#### **RHAN V**

#### **AMRYWIO GORCHYMYN TRAFNIDIAETH**

41 Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) Gorchymyn Cydgrynhoi 2007 fel ei diwygiwyd (Gorchymyn 2007). Bydd Gorchymyn 2007 a'r effaith fel pe byddai'r Cynllun sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn (sef rhif **BX49**) yn cymryd lle'r Cynllun hynny oedd â'r un Adran Cod Ardal yng Ngorchymyn 2007. Pan yn berthnasol mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn cymryd lle darpariaethau Gorchymyn 2007. Yn yr holl agweddau eraill cadarnheir Gorchymyn 2007.

Rhodddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y  
Dau Ddeg Pump.

dydd o \*\*\*\*\* Dwy Fil a

## ATODLEN 1

### Dim aros ar Unrhyw Adeg

Teil	Lleoliad/Disgrifiad
	<p data-bbox="339 501 555 533"><b><u>CAERNARFON</u></b></p> <p data-bbox="339 602 1026 633"><b><u>Ffordd Ddi-Ddosbarth - Stryd yr Eglwys, Caernarfon</u></b></p> <p data-bbox="220 705 1422 790"><b>BX49</b> Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o bwynt 6 metr o'i chyffordd â'r Stryd Fawr mewn cyfeiriad gogleddol am bellter o oddeutu 56 metr.</p> <p data-bbox="220 862 1394 947"><b>BX49</b> Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o bwynt 23 metr o'i chyffordd â Cei Banc mewn cyfeiriad deheuol am bellter o oddeutu 42 metr.</p> <p data-bbox="220 1019 1461 1104"><b>BX49</b> Ar ochr orllewinol y ffordd o bwynt 26 metr o'i gyffordd â Cei Banc mewn cyfeiriad deheuol am bellter o oddeutu 20 metr.</p> <p data-bbox="339 1173 1046 1205"><b><u>Ffordd Ddi-Ddosbarth - Stryd y Farchnad, Caernarfon</u></b></p> <p data-bbox="220 1276 1417 1361"><b>BX49</b> Ar ochr orllewinol y ffordd o bwynt 22 metr o'i chyffordd â'r Stryd Fawr mewn cyfeiriad gogleddol am bellter o oddeutu 42 metr.</p> <p data-bbox="339 1431 1007 1462"><b><u>Ffordd Ddi-Ddosbarth - Lôn yr Eglwys, Caernarfon</u></b></p> <p data-bbox="220 1534 1425 1619"><b>BX49</b> Ar ochr ogleddol y ffordd o bwynt 2 metr o'i chyffordd â Stryd yr Eglwys mewn cyfeiriad dwyreiniol am bellter o oddeutu 15 metr.</p>

## ATODLEN 2

### Diddymu

<u>Teil</u>	<u>Lleoliad</u>	<u>Cyfyngiad i'w Ddiddymu.</u>
	<b><u>CAERNARFON</u></b>	
	<b><u>Ffordd Ddi-Ddosbarth - Stryd y Farchnad</u></b>	
<b>BX49</b>	Ar ochr orllewinol y ffordd o bwynt 50 metr o'i chyffordd â'r Stryd Fawr mewn cyfeiriad gogleddol am bellter o oddeutu 5 metr.	Deiliad Trwydded Breswyl Anabl yn Unig
<b>BX49</b>	Ar ochr orllewinol y ffordd o bwynt 55 metr o'i chyffordd â'r Stryd Fawr mewn cyfeiriad gogleddol am bellter o oddeutu 11 metr.	Aros Cyfyngedig 1 Awr Dim Dychwelyd o fewn 1 Awr Llun-Sad 9yb-5yh.

### COST CERDYN PARCIO

<u>Math</u>	<u>Cost</u>
Trwydded Parcio Trigolion – Car Cyntaf	£60
Trwydded Parcio Trigolion – Ail Gar	£90
Trwydded yn lle un wedi cael difrod	£10
Trosglwyddo trwydded i gerbyd arall	£10
Trwydded yn lle un wedi ei cholli	£20
Trwydded ymwelydd	£5 (am lyfr o10)

#### Trwydded Trigolion ac Ymwelwyr :-

(Llun i Sadwrn yn unig)


**Math dosbarth cerbyd v caniateir:-**

- (i) Cerbyd modur, cerbyd nwyddau
- (ii) Beic modur

**Lleoliad v caniateir i'r cerbyd barcio:-**

Yn gyfan gwbl oddi mewn i'r man parcio sydd wedi ei farcio ar arwynebedd y cerbydlon gyda llinellau toredig gwyn. **Amser gweithrediad:-** bob amser o ddydd Llun i ddydd Sadwrn





Gorchymyn Cyngor Gwynedd  
 (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd)  
 Gorchymyn (Ardal Arfon Rhif 28) - 2024

The Gwynedd Council Order  
 (Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places)  
 Arfon Area No 28) Order - 2024



Cyngor Gwynedd  
 Pennaeth Adran Amgylchedd - Head of Environment Department  
 Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad - Transport and Countryside Service  
 Swyddfa'r Cyngor - Council Offices  
 Caernarfon  
 Gwynedd LL55 1SH

Cynhyrchwyd o fapiau 1:1250 yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023387.  
 Mae atgynhyrchu diawurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.

Produced from Ordnance Survey 1:1250 mapping with permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023387. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.



**THE CYNGOR GWYNEDD**

**(PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND STREET PARKING PLACES)**

**(ARFON AREA NO. 28 – RESIDENT PARKING CHURCH STREET AND MARKET STREET, CAERNARFON) ORDER 2025**

Cyngor Gwynedd (hereinafter referred to as “the Council”) in exercise of the powers conferred by Sections 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 63A, 124 and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984, as amended and the Traffic Management Act 2004 of all other powers them enabling and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to 1984 Act hereby makes the following Order:-

**PART I**

**CITATION AND INTERPRETATION**

1. This Order shall come into operation on the            day of            , 2025 and may be cited as the Cyngor Gwynedd (Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places) (Arfon Area No. 28 – Resident Parking Church Street and Market Street, Caernarfon) Order 2025.
  
2. In this Order, except where the context otherwise requires, the following expressions have the meanings hereby respectively assigned to them:  
  
    “*Ambulance*” has the same meaning as in the Vehicle Excise and Registration Act 1994;  
  
